**Jack Sargeant AS/MS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**
**Minister for Culture, Skills and Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddCulture@senedd.wales

24 Ebrill 2025

Annwyl Delyth,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Mawrth yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am waith Gweithgor Newyddiaduraeth Cymru er Budd y Cyhoedd.

Sefydlwyd y Gweithgor ddiwedd 2022 yn dilyn argymhelliad a wnaed i gyn-Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth, Dawn Bowden AS, gan Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr. Ei nod yw hwyluso trafodaethau rhwng rhanddeiliaid y diwydiant a Llywodraeth Cymru, a nodi'r pwerau sydd ar gael i'r diwydiant a'r Llywodraeth i gefnogi sector newyddiaduraeth cryf, cynaliadwy yng Nghymru. Nid oes gan y Gweithgor rôl ffurfiol wrth i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau ynghylch polisïau.

Cafodd yr adroddiad y mae gohebiaeth Mr Marshall yn cyfeirio ato fe, sy'n cynnwys yr argymhellion, sef *O Gymru ac i Gymru: Tuag at Ddyfodol Cynaliadwy ar gyfer Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd*, ei gyhoeddi yn 2023, ac mae'n amlinellu barn yr aelodau ynghylch yr ymyriadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau diwydiant cynaliadwy yng Nghymru. Ar y pryd, cyflwynwyd yr adroddiad i Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth ar y pryd, Dawn Bowden AS, ac Aelod Dynodedig y Cytundeb Cydweithredu, Cefin Campbell AS, a chytunwyd y dylai swyddogion ac aelodau'r Gweithgor barhau â'r trafodaethau ynghylch y camau sydd eu hangen i fwrw ymlaen ag argymhellion yr adroddiad. Ers derbyn y cyfrifoldeb am y portffolio newyddiaduraeth, rwyf wedi ymrwymo i ymateb i'r adroddiad ac i gwrdd â'r Gweithgor i drafod y camau nesaf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jack.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Jack.Sargeant@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ochr yn ochr â thrafodaethau'r Gweithgor, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth i brosiectau newyddiaduraeth, ac mae tua £400k wedi cael ei ddyfarnu drwy Gymru Greadigol i brosiect Ymchwil Data Sector Prifysgol Caerdydd, y Gronfa Newyddiaduraeth Hyper-leol, swydd gohebydd bwrpasol y Senedd dan arweiniad y Rhwydwaith Newyddion Cymunedol Annibynnol a phrosiect 'Labordy Datblygu'r Cyfryngau' cynhwysol dan arweiniad Newyddiaduraeth Gynhwysol Cymru. Mae'r holl brosiectau wedi cael eu croesawu gan y sector yng Nghymru.

Ers cyhoeddi adroddiad y Gweithgor, mae'r aelodau'n parhau i gwrdd i drafod y ffordd orau o ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael i weithredu argymhellion yr adroddiad, a'r ffyrdd y gall y diwydiant chwarae ei ran wrth sicrhau newid. Yn ddiweddar, cytunwyd ag aelodau'r Gweithgor y dylid adnewyddu ei Gylch Gorchwyl, a byddwn yn hapus i rannu'r ddogfen ddiwygiedig â'r Pwyllgor pan fydd ar gael.

O ran y materion penodol a godwyd gan Mr Marshall, nid yw'r Cylch Gorchwyl a chofnodion cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae gwybodaeth ar gael ar gais ac mae Mr Marshall yn trafod yn rheolaidd â'm swyddogion ac mae wedi derbyn cofnodion holl gyfarfodydd y Gweithgor a manylion aelodau'r Gweithgor. Mae aelodaeth yn agored i'r unigolion hynny sy'n gweithio'n weithredol yn y diwydiant ar hyn o bryd. Roedd Mr Marshall yn un o aelod-sylfaenwyr y Gweithgor, ac roedd yn aelod tan ganol 2023 pan adawodd ar ôl iddo adael y sefydliad yr oedd yn ei gynrychioli.

Yn gywir,

**Jack Sargeant AS/MS**
Minister for Culture, Skills and Social Partnership
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol